

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd am 5.30 pm ym Mharlwr y Maer, Swyddfeydd Cyngor Bangor ar **14 Gorffennaf 2025**.

YN BRESENNOL:- Cyng. John Wynn Jones (Cadeirydd), Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig).

F01/ 25 YMDDIHEURIADAU

Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Jackie Spence, Cyng. John Wyn Williams.

F02/25 PENODI CADEIRYDD Y PWYLLGOR AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2025-2026

Enwebwyd y Cynghorydd John Wynn Jones i swydd Cadeirydd y Pwyllgor a chytunodd i dderbyn y rôl pe bai'n cael ei ethol. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill.

Penderfynwyd: penodi'r Cynghorydd John Wynn Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025-2026.

F03/25 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD Y PWYLLGOR AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2025-2026

Enwebwyd y Cynghorydd Mark Roberts i swydd Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2025-2026 a chytunodd i dderbyn y rôl. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill.

Penderfynwyd: penodi'r Cynghorydd Mark Roberts yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025-2026.

F04/25 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim

F05/25 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD 9 MEHEFIN 2025

Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2025 wedi'u dosbarthu ymlaen llaw.

Penderfynwyd: cymeradwyo cofnodion cyfarfod 9 Mehefin fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

F06/25 TRAFOD Y DATGANIAD CYFRIFON, Y FFURFLEN FLYNYDDOL A'R ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL.

Roedd y Datganiad Cyfrifon, y Ffurflen Flynyddol a'r Adroddiad Archwilio Mewnol wedi'u dosbarthu ymlaen llaw.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig/Swyddog Ariannol Cyfrifol, er bod y dogfennau hyn eisoes wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor yng nghyfarfod 30 Mehefin, fod yr eitem hon wedi'i chynnwys ar yr agenda heno i ganiatáu i'r Pwyllgor Cyllid ddadansoddi'r dogfennau'n fanylach. Trafododd y pwyllgor y Datganiad Blynyddol a'r Adroddiad Archwilio Mewnol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod dros filiwn o bunnoedd wedi mynd trwy gyfrif banc y Cyngor dros y cyfnod o ddeuddeg mis ar adeg pan oedd pecyn cyfrifon newydd yn cael ei ddefnyddio a bod y cadw llyfrau wedi'u gwneud yn fewnol.

Penderfynwyd: Derbyn y Datganiad Cyfrifon, y Ffurflen Flynyddol a'r Adroddiad Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-2025.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor yn ffurfiol i Gyfarwyddwr y Ddinas/SAC a'i dîm am eu gwaith ar Gyllid a Llywodraethu'r Cyngor. Roedd rheoli trosiant o dros £1m gydag un sylw bach yn unig gan yr archwilydd yn nodedig.

F 07/25 CYMERADWYO'R RHESTR TALIADAU AR GYFER

- i) **Mai**
- ii) **Mehefin.**

Roedd y ddwy restr taliadau wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau.

Dadansoddodd y Pwyllgor y rhestrau taliadau ar gyfer y ddau fis a gofynnodd am eglurhad ar nifer o eitemau gan Gyfarwyddwr y Ddinas/SAC. Sicrhawyd trafodaeth fanwl ar nifer o daliadau.

Penderfynwyd: cymeradwyo'r rhestr daliadau ar gyfer Mai a Mehefin 2025.

F08/25 DDERBYN Y GYLLIDEB 3 MIS YN ERBYN YR ADRODDIAD GWIRIONEDDOL.

Roedd yr Adroddiad Cyllideb Tri Mis yn erbyn yr Adroddiad Gwirioneddol wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau.

Trafododd y Pwyllgor y Gyllideb 3 mis o'i gymharu â'r Adroddiad Gwirioneddol a chraffodd ar nifer o linellau cyllideb.

Penderfynwyd: derbyn yr Adroddiad Cyllideb Tri Mis yn erbyn yr Adroddiad Gwirioneddol.

F09/25 DDERBYN ADRODDIAD CYSONI'R BANC MIS MEHEFIN.

Cafodd Adroddiad Cysoni'r Banc mis Mehefin ei werthuso gan ddau aelod o'r pwyllgor a'i lofnodi a'i ddyddio fel un cywir gan y ddau.

Penderfynwyd: derbyn adroddiad Cysoni'r Banc ar gyfer mis Mehefin.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.20 pm

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR